

# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Social Business Wales

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol  
/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

### Nodyn Canllaw yn ystod y Coronafeirws (COVID-19): Lleihau Eich Llif Arian - Ailasesiad

Yn sgil yr achosion Covid-19 cychwynnol ym mis Mawrth, gorfodwyd llawer o fusnesau i adolygu eu modelau busnes a'u costau gweithredu. Fe wnaeth y lleihad yn y llif arian alluogi busnesau cymdeithasol naill ai i barhau i weithredu, o bosibl ar raddfa lai, aros tan fod yr amodau'n gwella, neu droi'r model busnes yn fath newydd o ddarpariaeth neu farchnad.

Fe wnaeth bron pob busnes cymdeithasol hefyd ddefnyddio eu rhagolygon llif arian wedi'i lleihau fel sylfaen ar gyfer eu modelau ôl-Covid ac adferiad cynlluniedig. Mae ton newydd o'r clefyd ac ailgyflwyno cyfyngiadau llymach a lleol, ynghyd ag adferiad economaidd arafach, wedi golygu bod cynnydd a chynlluniau adfer efallai yn afrealistig ac yn anghyraeddadwy bellach. Yn ogystal, gyda llai o becynnau cymorth ariannol ar gael yn ystod ail don y pandemig a gwell dealltwriaeth o'r effeithiau ar fusnesau, mae ailystyried y llif arian wedi dod yn brif flaenoriaeth unwaith eto i'r rhan fwyaf o arweinwyr busnes.

Datblygwyd y nodyn briffio hwn er mwyn arwain busnesau cymdeithasol yn y broses o ailwerthuso'r llif arian a datblygu model meinach sydd wedi'i leihau er mwyn llywio drwy gamau nesaf y pandemig. Fe'i bwriedir fel modd o'ch cyfeirio at wybodaeth ac adnoddau defnyddiol sy'n gysylltiedig â chyllid yn ystod y pandemig. Byddwn yn diweddarau'r briff hwn yn rheolaidd wrth i fwy o adnoddau a chyngor ddod ar gael. Mae'r holl wybodaeth a'r dolenni a ddarperir gennym yn y nodyn canllaw hwn yn cael eu rhannu'n ddiwyll ac yn gyfredol adeg cyhoeddi'r canllaw hwn. Rydym yn argymhell eich bod yn cadw golwg ar gyhoeddiadau ac am newidiadau i gynlluniau, felly gwiriwch y dolenni'n rheolaidd.

### **Pwysigrwydd Cynllunio Llif Arian:**

Mae pob busnes yn ymwybodol o bwysigrwydd cynllunio llif arian; gall adnabod faint o arian neu fuddsoddiad sydd ei angen arnoch er mwyn gweithredu eich busnes. Mae'n hollbwysig yn y camau cynnar, ond yr un mor bwysig wrth i fusnesau ddatblygu neu fynd drwy gyfnodau ariannol anodd. Mae'r pandemig Covid-19 wedi bod yn her i gyllid a llifoedd arian gyda gostyngiadau yn y galw, cau gorfodol, lefelau hyder defnyddwyr yn isel, a newidiadau mewn arferion defnyddwyr.



# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Social Business Wales

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol  
/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Mae neilltuo amser i adolygu eich safle llif arian ac i ddiweddarau eich rhagolwg llif arian yn hanfodol. Gall fod yn ddigalon gorfod wynebu'r dasg hon eto ond bydd nodi ble y gall y pwyntiau gwasgfa mewn llif arian fod a sut y gellir eu gwrthweithio, yn dangos eich parodrwydd i allu goroesi'r don nesaf hon a'r heriau sydd o'n blaenau a pha mor gydnherth yw eich busnes cymdeithasol.

Cynhaliodd **Busnes Cymdeithasol Cymru** weminar diweddariad cyllid yn ddiweddar. I gael mynediad at y recordiad ac adnoddau defnyddiol, cliciwch yma:

<https://padlet.com/SocialBusinessWales/4akxrm89sp08re5g>

### **Adolygu ac Asesu'r 6-9 mis diwethaf:**

Bu busnesau cymdeithasol yn gyflym i addasu a newid i amodau digynsail y farchnad a brofwyd ym mis Mawrth a'r cyfnodau clo dilynol. I lawer o sefydliadau, roedd ganddynt dri opsiwn:

- (i) **Parhau i weithredu, o bosibl ar raddfa lai.**
- (ii) **Rhoi'r busnes i gysgu a rhoi staff ar ffyrlo.**
- (iii) **Arallgyfeirio i ddulliau cyflenwi newydd neu farchnadoedd newydd.**

Mae adolygu pa opsiwn a gymerwyd gan eich busnes cymdeithasol a sut yr effeithiwyd ar eich incwm a'ch costau o ganlyniad, yn ddechrau da. Ystyriwch beth weithiodd yn dda a beth y gellid ei wella o ran incwm, costau a darparu gwasanaethau.

Mae gan fusnesau cymdeithasol fwy o wybodaeth a data'r tro hwn nag yn ystod y don gyntaf, felly defnyddiwch y gallu edrych yn ôl, ystyriwch yr hyn yr hoffech chi fod wedi ei wybod bryd hynny a phrofiadau a gwybodaeth y don gyntaf i ystyried beth fydddech/y gallech fod wedi'i wneud yn well neu'n wahanol. Gall hyn fod yn sail i'ch cynllun drwy gamau nesaf y pandemig a sut y gallwch reoli eich llif arian.

### **Cam 2: Cynyddu Incwm:**

Y cam nesaf yw edrych ar sut y bydd eich ffrydiau incwm yn cael eu lleihau. Gall rhagolygon ariannol fod yn eithaf anodd ar adegau o ansicrwydd, ond mae'n gam cyntaf hanfodol iawn tuag at nodi o ble y daw eich incwm a sut y mae'n debygol o gael ei effeithio dros y 3,6,9,12 mis nesaf.



# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Social Business Wales

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol  
/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Ystyriwch sut rydych chi'n cynhyrchu eich incwm, pa Gytundebau Lefel Gwasanaeth parhaus neu daliadau grant fydd yn dod i mewn. Gall gweithredu lefel gwasanaeth is effeithio ar eich incwm o Gytundebau Lefel Gwasanaeth, felly siaradwch â chontractwyr i gael gwybod sut y bydd hyn yn effeithio ar eich incwm. A fyddwch chi'n gallu cynhyrchu unrhyw incwm masnachu? Byddwch yn realistig ac yn ddarbodus wrth lunio eich incwm rhagamcanol.

Mae **chwisterlliadau o arian** yn ffordd o lenwi'r bwlch. Mae llawer o opsiynau ar gael i sefydliadau megis:

**Cyflwyno cronfeydd wrth gefn:** mae llawer o sefydliadau wedi treulio blynyddoedd yn datblygu eu cronfeydd wrth gefn ar gyfer pan fydd eu hangen, ac mae'n ymddangos bod 2020 yn gyfnod o angen mawr. Felly, lle y bo'n bosibl, edrychwch ar gyflwyno'r cronfeydd wrth gefn a penderfynwch ar yr amser mwyaf priodol i wneud hyn os oes rhai ar gael gennych.

**Adolygwch yr arian sy'n ddyledus i chi:** edrychwch ar unrhyw anfonebau ac arian sy'n ddyledus i chi ac anfon anfonebau allan, neu ewch ar ôl unrhyw daliadau sy'n ddyledus i chi. Gallai hyn arwain at chwistrelliad o arian, ond byddwch yn realistig ynghylch pryd y mae'r arian hwn yn debygol o gael ei dderbyn a chofiwch ei gofnodi yn y cyfnod cywir y'i derbynnir ef, ac nid pan ddisgwylir ef, gan y gallai unrhyw oedi o ran amser effeithio'n negyddol ar lif arian.

**Blaendaliadau:** hefyd, ystyriwch siarad ag unrhyw gyllidwyr neu gwsmeriaid sydd â Chytundebau Lefel Gwasanaethau ac ystyried gofyn am flaendaliad ar unrhyw ddyfarniadau/contractau y cytunwyd arnynt eisoes. Cofiwch y gallai hyn roi chwisterllaid arian tymor byr, ond efallai y bydd y costau cysylltiedig gyda chyflenwi yn cael eu hoedi, felly bydd dal angen i chi sicrhau bod gennych lif arian digonol ar y pwynt diweddarach hwnnw mewn pryd i dalu am gostau cyflenwi, gan gynnwys cyflogau ac ati.

**Cymorth gan Lywodraeth Cymru:** mae'r Prif Weinidog wedi cyflwyno ystod o becynnau cymorth ariannol a grantiau i gefnogi busnesau Cymru drwy'r cyfnodau clo, y cyfnod clo byr a thu hwnt. Ceir manylion llawn am y cymorth ariannol diweddaraf sydd ar gael yn ogystal â gwybodaeth ddefnyddiol i gyflogwyr yma:

<https://llyw.cymru/busnesau-a-chyflogwyr-coronafeirws>



# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Social Business Wales

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol  
/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

**Cymorth gan Lywodraeth y DU:** yn ogystal â chymorth sy'n canolbwyntio ar Gymru, gall busnesau cymdeithasol hefyd ddefnyddio'r mentrau cymorth a gyhoeddwyd yng Nghynllun Economi'r Gaeaf y Canghellor. Mae offeryn diagnostig defnyddiol ar wefan Llywodraeth y DU i'ch galluogi i nodi pa gynlluniau y gallech eu defnyddio ar sail eich lleoliad, eich sector a'ch maint: <https://www.gov.uk/business-coronavirus-support-finder>

Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** wedi llunio nodyn canllaw ar **gyllid y cyfnod clo** sy'n amlinellu cynlluniau cymorth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys grantiau, benthyciadau a mentrau eraill, gan gynnwys cymorthdaliadau cyflog a seibiannau treth:

<https://wales.coop/wp-content/uploads/2020/11/Lockdown-Finances-CYM-V3.pdf>

**Banciau:** siaradwch â'ch banc ac unrhyw fenthyciwr am gyflwyno neu ymestyn **cyfleusterau gorddrafft**. Bu pob banc yn gyflym i gynnig cymorth yn ystod y don gyntaf ac maent yn awyddus i barhau i gefnogi busnesau ac unigolion yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn. Ystyriwch unrhyw gostau cysylltiedig neu gyfnodau di-log sydd ar gael a sicrhewch eich bod yn ystyried unrhyw daliadau yn eich llif arian.

Mae **Buddsoddwyr a benthycwyr Cymdeithasol** hefyd yn edrych ar sut y gallant helpu. I ddechrau, roeddent yn cynnig opsiynau pontio cyllid brys a gwyliau ad-dalu cyfalaf ar fenthyciadau presennol, ac maent yn dal yn awyddus i fod yn gefnogol a datblygu cynhyrchion cymorth ariannol i helpu busnesau i addasu i amodau newydd y farchnad a goroesi'r ail don.

Mae **gwefan Good Finance** yn cynnwys llawer o adnoddau a chanllawiau defnyddiol yn ogystal â chysylltiadau â buddsoddwyr cymdeithasol allweddol:

<https://www.goodfinance.org.uk/latest/post/coronavirus-post/funding-and-investment-guidance>

Mae **Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru** yn gweinyddu **Cam 2 Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector** - cynllun cyllid cyfunol sy'n cynnig hyd at £100,000. Mae'n gyfuniad o grant o 75% a benthyciad o 25% gyda chyfnod di-log o 12 mis. Ceir rhagor o fanylion am y cynllun a chymhwysedd yma:

<https://wcva.cymru/cy/cyllid/buddsoddiad-cymdeithasol-cymru/cronfa-gwydnwch-trydydd-sector-cymru/>



# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Social Business Wales

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol  
/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Mae ein gweminar gydag **Alun Jones o Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru** yn trafod manylion y gronfa: [https://www.youtube.com/watch?v=82NX7IFy\\_64](https://www.youtube.com/watch?v=82NX7IFy_64)

### **Lleihau Gwariant:**

Y cam nesaf yw edrych ar eich gwariant er mwyn asesu ble y gallwch wneud toriadau ac arbedion dros dro i'ch helpu i oroesi'r cyfnod hwn. Bydd beth a faint y gallwch ei dorri yn dibynnu ar ba un ai ydych yn rhoi'r busnes i gysgu neu'n torri'n ôl hyd at eich sylfeini.

Deall a nodi beth yw costau sefydlog a chostau amrywiol fydd y cam cyntaf wrth asesu'r hyn y gellir ei leihau a beth fydd yn aros yn gyson.

Mae gan **Busnes Cymru** wybodaeth ddefnyddiol am ddeall eich costau: <https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy/cyllid/deall-costau#guides-tabs--1>

Pan fyddwch yn ceisio torri'n ôl ac arbed costau, fel sefydliad bydd angen i chi ystyried sut y gallwch wneud arbedion:

**Staffio** yw'r gost uchaf i sefydliadau fel arfer, felly bydd angen i chi ystyried pa staff fydd eu hangen arnoch er mwyn gweithredu eich busnes dros y misoedd nesaf. Gyda chynlluniau cymorth y Llywodraeth, efallai y bydd opsiynau i gael mynediad at fentrau cymorth cyflog drwy'r cynllun ffyrlo sydd wedi'i ymestyn tan fis Mawrth 2021. Mae manylion y cynllun i'w gweld yma: <https://www.gov.uk/guidance/claim-for-wage-costs-through-the-coronavirus-job-retention-scheme.cy>

Gall lleihau oriau neu ailstrwythuro fod yn opsiwn arall y mae'n rhaid i chi ei ystyried er mwyn lleihau eich costau. Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** wedi datblygu canllaw ar Adnoddau Dynol, ffyrlo a'r cynllun cymorth swyddi newydd yn ogystal â gweminar yn ddiweddar ar ystyriaethau Adnoddau Dynol yn ystod cam nesaf y



# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Social Business Wales

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol  
/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

pandemig. Mae modd ei weld yma:

<https://www.youtube.com/watch?v=TYO4uWk78ZA&feature=youtu.be>

<https://wales.coop/webinars-covid-19-and-social-businesses/>

**Benthyciadau a Morgeisi:** siaradwch â'ch banc ynglŷn â gohirio taliadau cyfalaf.

**Cyflenwyr:** siaradwch â nhw am ohirio taliadau. Gan gynnwys cyflenwyr nwy a thrydan, mae'r rhan fwyaf yn ceisio bod yn gefnogol ac efallai y gallant roi cynlluniau talu ar waith a fydd yn lleihau'r hyn sy'n mynd allan yn fisol yn y tymor byr.

**TAW a Threth:** mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi ymateb i'r pandemig Covid drwy gyflwyno nifer o fentrau treth a TAW i gefnogi busnesau fel rhan o gynllun economi'r gaeaf, gan gynnwys ymestyn y gyfradd TAW o 5% ar gyfer busnesau lletygarwch a thwristiaeth a'r opsiwn i fusnesau, a ohriodd eu biliau treth yn gynharach yn y flwyddyn, i wneud 11 taliad llai yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf yn hytrach nag un taliad llawn ym mis Mawrth. Mae'r manylion llawn i'w gweld yma: <https://www.gov.uk/government/news/chancellor-outlines-winter-economy-plan>

**Tâl Salwch:** bydd cyflogwyr cymwys yn gallu hawlio hyd at bythefnos o Dâl Salwch Statudol os ydych yn hawlio am gyflogai sy'n gymwys i gael tâl salwch oherwydd y coronafeirws ac os oes gennych gynllun Talu wrth Ennill ar waith ar neu gyn 28 Chwefror 2020. Ceir rhagor o fanylion yma: <https://www.gov.uk/guidance/claim-back-statutory-sick-pay-paid-to-employees-due-to-coronavirus-covid-19>

### **Datblygu Cynllun Newydd a Meddwl am Bob Senario:**

Ar ôl ystyried beth weithiodd yn dda a beth na wnaeth yn ystod y 6-9 mis diwethaf ac adolygu eich incwm a'ch gwariant, y cam nesaf yw datblygu eich rhagolygon llif arian newydd.

Mae gan **Busnes Cymru** ganllaw cam wrth gam ar gyfer rhagolygon llif arian:

<https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy/rheoli-eich-arian/rhagamcan-llif-arian#guides-tabs--0>

Pan fydd eich rhagolygon llif arian newydd gennych, mae'n bwysig eu profi.

Meddylwch am wahanol senarios fel cyfnod cau gorfodol arall, gostyngiad mewn



# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Social Business Wales

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol  
/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

incwm, colli cyllid/Cytundeb Lefel Gwasanaeth, newid yn y gofynion staffio. Cymerwch y senarios cyffredin hyn ac eraill a phrofwch sut mae eich llif arian yn cael ei heffeithio ganddynt. Crëwch sawl llif arian - un optimistaidd, realistig, pesimistaidd.

Mae Covid-19 wedi bod yn her i gyllid pawb ac mae'n bwysig ein bod yn archwilio senarios tebygol ac yn meddwl am oblygiadau'r llif arian a'r hyn rydych chi'n mynd i'w wneud. A oes adegau lle bydd angen mwy o gyllid arnoch? Allwch chi leihau costau/cynyddu incwm rywsut? Allwch chi gael mwy o gredyd? Bydd ystyried y ffyrdd y gallai'r busnes liniaru unrhyw risgiau a rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith yn eich helpu i gynnal y llif arian sydd ei hangen er mwyn gweithredu. Bydd hefyd yn cefnogi unrhyw geisiadau am grantiau neu fenthyciadau. Bydd cyllidwyr am weld eich bod wedi ystyried gwahanol senarios ac wedi cynllunio ar gyfer sut y gallwch eu goresgyn.

Cynhaliodd **Busnes Cymdeithasol Cymru** weminar ar gyllid yn ddiweddar gan drafod cynllunio senarios:

<https://www.youtube.com/watch?v=TYO4uWk78ZA&feature=youtu.be>

### **Adolygu a Diweddarau:**

Mae'n bwysig treulio digon o amser ar baratoi'r llif arian. Mae hefyd yn bwysig iawn eich bod yn adolygu eich rhagolygon yn barhaus. Bydd monitro eich gwariant go iawn yn erbyn yr hyn rydych chi wedi'i ragweld a diweddarau'r rhagolygon yn sicrhau eu bod yn ddogfennau byw sy'n cynnwys y wybodaeth gywir.

Nid oes amseroedd penodol ar gyfer eu hadolygu. Bydd yn dibynnu ar eich busnes unigol os byddwch yn dewis adolygu eich llif arian bob dydd, yn wythnosol neu'n fisol. Bydd yr amllder hefyd yn newid ar wahanol gamau o'r cylch datblygu busnes, er enghraifft bydd yn dod yn dasg amlach ar adegau o anhawster ariannol neu yn ystod cyfnod sefydlu neu lansio cynnyrch/gwasanaeth newydd.

### **Angen Cymorth Pellach?**

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch ar gynllunio llif arian, efallai y bydd cymorth ar gael drwy Busnes Cymdeithasol Cymru. Cysylltwch â'ch cynghorydd busnes, neu aelod o'n tîm.



# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Social Business Wales

[/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol](https://busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol)  
[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)

Mae Busnes Cymdeithasol Cymru yma i helpu busnesau cymdeithasol o'r camau datblygu cynnar hyd at ehangu, arallgyfeirio a thwff. Mae gennym dîm o gynghorwyr busnes arbenigol ac ymgynghorwyr a all gynnig cymorth un i un pwrpasol i'ch sefydliad. Os oes angen help ar eich Busnes Cymdeithasol, cysylltwch ag aelod o'n tîm i gael gwybod sut y gallwn eich cefnogi:

**Ffôn: 0300 111 5050**

**E-bost:** [sbwenquiries@wales.coop](mailto:sbwenquiries@wales.coop)

<https://cymru.coop/get-our-help/support-available/>

### **Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol:**

Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** wedi datblygu cyfres o nodiadau canllaw, gweminarau ac offer i gefnogi busnesau cymdeithasol drwy'r pandemig. Gellir cael gafael arnynt i gyd drwy'r hwb covid yma: <https://cymru.coop/covid-19-hub/>

Mae gan **Lywodraeth Cymru** lawer o ddolenni ac adnoddau defnyddiol i unigolion a busnesau er mwyn eu llywio drwy'r pandemig: <https://llyw.cymru/coronafeirws>

Mae gan **Busnes Cymru** hwb canolog o wybodaeth, gan gynnwys y cyllid diweddaraf sydd ar gael, ar: <https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy>

Mae gan **Busnes Cymdeithasol Cymru** wybodaeth a chanllawiau defnyddiol ar gyfer busnesau cymdeithasol yn ystod pob cam datblygu:  
<https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy>

***Mae'r holl wybodaeth a'r dolenni a ddarparwn yn y nodyn canllaw hwn yn cael eu rhannu'n ddi-dwyll ac yn gyfredol adeg cyhoeddi'r canllaw hwn. Rydym yn argymhell eich bod yn cadw golwg ar gyhoeddiadau ac am newidiadau i gynlluniau, felly gwiriwch y dolenni'n rheolaidd.***

Diweddarwyd: 5.11.20

